

# Cardiau Ôl-stori Gyrfa

## Sophie Peiriannydd Gwasanaethau Maes

### Sut olwg sydd ar ddiwrnod yn eich swydd?

Gall fy niwrnod amrywio llawer yn dibynnu a ydw i'n gweithio i ffwrdd neu yn y swyddfa. Yn y swyddfa, dw i fel arfer yn adeiladu a phrofi systemau arsylwi ar y tywydd neu'n paratoi offer i'w gosod. Pan ydw i allan yn y maes, y rhan fwyaf o'r amser dw i'n gosod neu'n trwsio offer newydd i sicrhau bod popeth yn gweithio fel y dylai er mwyn trosglwyddo gwybodaeth bwysig i'r Pencadlys.

### Sut wnaethoch chi gyrraedd eich swydd?

Dechreuas i yn y Swyddfa Dywydd ar ôl coleg, heb unrhyw brofiad peirianneg o gwbl. Yn fy mlwyddyn gyntaf, dechreuas brentisiaeth a chwblhau cwrs mewn Peirianneg, ac yna cwrs mewn Peirianneg Drydanol/Electronig. Gwnes i hyn am ddwy flynedd wrth gael profiad gwaith ymarferol. Gwnes i hefyd rai cyrsiau ychwanegol ar systemau radar.

### Pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eich swydd?

Yn bendant mae angen i chi weithio'n dda mewn tîm ac wrth ddatrys problemau. Gall cyfuno creadigrwydd â gwybodaeth dechnegol fod yn fonws mawr hefyd - mae'n help mawr os gallwch edrych ar her a meddwl yn greadigol.

### Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?

Mae cyrraedd y gwaith gyda chymaint o wahanol dimau, a theithio i leoedd newydd a diddorol, bob amser wedi bod yn rhan wych o'r swydd. Mae pob diwrnod yn wahanol! Mae hefyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn hyfforddi ac ennill cyflog ar yr un pryd - rwyf bob amser wedi teimlo fy mod yn cael cefnogaeth wirioneddol i barhau i ddysgu sgiliau a chael profiadau newydd.



# Cardiau Ôl-stori Gyrfa

## Jaylin Rheolwr mewn Arsyllwadau Awyr Uchaf

### Sut olwg sydd ar ddiwrnod yn eich swydd?

Rwy'n gofalu am bopeth sy'n ymwneud â rhedeg y radar tywydd a sicrhau eu bod yn gweithio. Mae fy niwrnod fel arfer yn dechrau gyda gwirio pob radar; mae gennym feddalwedd monitro sy'n caniatáu i mi weld yn gyflym sut maen nhw'n perfformio. Os nad yw rhywbeth yn iawn, fy ngwaith i yw sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu gwybod a bod y camau cywir yn cael eu rhoi ar waith fel y gallan nhw ei drwsio cyn gynted â phosib. Rwyf hefyd yn cynnal ymweliadau cynnal a chadw cynlluniedig - mae angen cynnal a chadw'r radar yn rheolaidd, ac i gytuno ar yr amserlen rhaid i mi siarad â thimau peirianeg gwasanaethau maes ledled y DU.

### Sut wnaethoch chi gyrraedd eich swydd?


Wrth gychwyn fy swydd, roedd yn ddefnyddiol fy mod i wedi astudio gwyddoniaeth yn yr ysgol. Roeddwn i'n mwynhau gwyddor yr amgylchedd a daearyddiaeth yn arbennig hefyd, er nad oeddwn i wir yn gwybod beth roeddwn i am ei wneud. Yn y pendraw, ymunais â'r Llynges fel meteorolegwr ac eigionegwr, a dyna lle y dechreuais ddysgu fy nghreffft yn y swydd. Gwnes i hefyd radd sylfaen yn y Brifysgol Agored. Dyna a barodd imi fynd i'r Swyddfa Dywydd yn eu tîm Gweithrediadau Arsyllwi.

### Pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eich swydd?

Ar gyfer fy swydd i, mae rheoli amser, trefnu, cynllunio ymlaen llaw a gweithio'n dda gydag eraill i gyd yn bwysig iawn. Gall fod yn gyflym iawn, ac mae angen i chi gadw pen clir, gwrando'n ofalus a themlo'n hyderus wrth arwain. Ond mae'r cyfan yn dod wrth ymarfer - os ydych chi'n dwlu ar eich swydd, bydd y pethau hyn yn dod gydag amser!

### Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?

Un o'r pethau rwy'n ei hoffi fwyaf am fy swydd yw teithio. Ddwywaith y flwyddyn rwy'n cael mynd i gwrdd â phobl sy'n gwneud fy swydd mewn rhannau eraill o Ewrop - roedd fy nhaith ddiwethaf i Wlad yr Iâ. Nid yn unig roedd y gweithdai'n ddiddorol iawn, ces i weld Golau'r Gogledd!



# Cardiau Ôl-stori Gyrfa

## Aaron Peiriannydd Meddalwedd Radar

### **Sut olwg sydd ar ddiwrnod yn eich swydd?**

Mae fy niwrnod yn bennaf yn cynnwys defnyddio cod rhaglennu ac ysgrifennu i wella'r feddalwedd sy'n rhedeg yn y safleoedd radar tywydd. Mae'r feddalwedd hon yn rheoli popeth y mae'r radar yn ei wneud - er enghraifft, pa mor gyflym mae'r ddysgl yn troelli, pa mor aml y mae'n trosglwyddo ac am faint o amser ... mae'n rhaid i mi fod yn ofalus, oherwydd gallai hyd yn oed nam eithaf bach yn y feddalwedd gau'r rhydwraith radar i lawr os nad yw rhywun yn sylwi arno mewn pryd!

### **Sut wnaethoch chi gyrraedd eich swydd?**

Astudiais fathemateg a chyfrifiadura ar gyfer Safon Uwch, yna gwnes i Gyfrifiadureg yn y brifysgol, a oedd yn bendant yn ddefnyddiol. Pan adewais y brifysgol, treuliais bedair blynedd yn gweithio fel rhaglennydd, a helpodd imi ddysgu am beirianeg meddalwedd. Yna gwnes i radd meistr mewn Eigioneg.

### **Pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eich swydd?**

Yn bendant, mae angen i chi fod yn ddatryswr problemau da, ac mae'n bwysig iawn datblygu dull tawel, methodolegol o edrych ar bosau a meddwl drwy atebion. Mae gallu

gwrando a chyfathrebu â thimau eraill yn allweddol hefyd.

### **Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich swydd?**

Mae bob amser yn werth chweil gweld sut mae meddalwedd dw i wedi'i hysgrifennu yn gwneud i'r radar wneud rhywbeth newydd a defnyddiol. Mae hefyd yn deimlad da gwybod bod y gwaith dw i'n ei wneud yn helpu i gadw pobl yn ddiogel, trwy helpu'r radar i weithredu a chael gwybodaeth bwysig i'r bobl iawn. Mae mynd i fyny at y radar yn hwyl hefyd - mae'n braf cael newid golygfa, ac mae golygfeydd gwych oherwydd maen nhw i gyd wedi'u lleoli mewn tyrau ar ben bryniau. Mae'n eithaf epig!

